YR YSTWYLL 4

MICHA 6:1-8; SALM 15;
1 CORINTHIAID 1:18-31; MATHEW 5:1-12

● **Gweddi agoriadol**

Daethom ynghyd i'r lle hwn,
gyda'n llawenydd a'n gofidiau,
yn gyfan ac yn doredig,
yn unigolion ac eto yn un corff
wedi'n tynnu atat ti i addoli.
Daethom ynghyd i'r lle hwn
i rannu a dysgu gyda'n gilydd,
i adeiladu ein gilydd
ac i ddwyn i ti yr offrwm hwn,
ein haberth moliant.

● **Moliant**

Rwyt yn Dduw rhyfeddol
dy fod yn dewis
pethau syml y byd hwn
i ddrysu'r rheini
sy'n eu galw eu hunain yn ddoeth;
dy fod yn bendithio'r gwan
ac yn darostwng y balch,
yn codi'r cloff,
ac yn adfer golwg i'r dall.

Rwyt yn Dduw rhyfeddol
dy fod yn dewis y bobl
ddaeth ynghyd yma heddiw

i fod yn dystion i ti
yn y byd tywyll hwn,
i gario dy heddwch
a hau hadau cariad.

Rwyt yn Dduw rhyfeddol
ac fe folwn dy enw.

● **Cyffes**
Pan anghofiwn fendithion pob dydd,
pun ai yn byw mewn tlodi neu lawnder,
iechyd da neu dostrwydd,
tristwch neu lawenydd,
heddwch neu wrthdaro,
gyda theulu
neu yn unig,
  maddau i ni.

Atgoffa ni mai moment fer yw'r diwrnod hwn
mewn tragwyddoldeb o gariad a gras,
yn rhydd o bob poen,
calonnau wedi'u llenwi â llawenydd,
yn mwynhau dy heddwch,
gyda'n gilydd
gyda thi,
  am byth.

Pan anghofiwn fendithion pob dydd,
Arglwydd da, maddau i ni.

● Diolch

Ble byddem heb dy oleuni?
Ar goll mewn tywyllwch.
Ble byddem heb dy heddwch?
Wedi ein caethiwo gan ddoethineb y byd.
Ble byddem heb dy gariad?
Yn chwilio am dy goflaid gynnes.
Ble byddem heb dy air?
Yn chwilio drwy'r ddaear am ryddid.
Ble byddem heb dy rym?
Yn stryffaglo yn ein gwendid.
Ble byddem hebot ti, Arglwydd?
Ar goll, angen gras.

Rhown ddiolch i ti
am oleuni, heddwch, cariad, gair, grym a gras.